

# Effaith Addysg Fenter ym Mhrifysgol Aberystwyth – 2020

Tony Orme	Hyrwyddwr Menter	<a href="mailto:awo@aber.ac.uk">awo@aber.ac.uk</a>	07773 471245
Louise Somerfield	Swyddog Gweinyddu Menter	<a href="mailto:los14@aber.ac.uk">los14@aber.ac.uk</a>	01970 622378

## Ym Mhrifysgol Aberystwyth rydym wedi ymroi i'r canlynol:

- Annog dyfeisgarwch trwy syniadau a gweithredu newydd, mewn cyd-destun entrepreneuriaidd, gan ymdrechu i ddatgloi potensial unigolion
- Grymuso ein holl fyfyrwyr, waeth beth fo'u maes pwnc a lefel eu hastudiaethau, i feithrin sgiliau perthnasol (gan gynnwys sgiliau a chymwyseddau entrepreneuriaidd) trwy sicrhau bod y rhain yn y cwricwlwm
- Ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd (a menter, yn benodol) ar draws ein hystod o raglenni, gan gynnwys rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli, profiad gwaith, profiad rhyngwladol a sgiliau trosglwyddadwy eraill
- Buddsoddi i ddatblygu effaith ein hymchwil yn ogystal â sgiliau entrepreneuriaidd ein hymchwilwyr
- Meithrin meddylfryd amrywiol trwy'r cwricwlwm academiaidd a thrwy weithgareddau allgyrsiol, yn benodol o safbwynt menter, entrepreneuriaeth ac intrapreneuriaeth, gan ddefnyddio'r model sgiliau EntreComp newydd

## Mae'r nodweddion rydym yn eu hyrwyddo trwy ein dulliau gweithredu a'n gweledigaeth yn ceisio sicrhau bod ein myfyrwyr a'n gradddedigion:

yn gynhwysol: ym mhopeth a wnânt ac â phawb sy'n croesi eu llwybr

yn ddyfeisgar: drwy feithrin eu sgiliau i feddwl y tu hwnt i ffiniau a datrys problemau byd-eang (a lleol)

yn ysbrydoli: drwy iddynt fanteisio ar bob cyfle sy'n dod i'w rhan, gan ddatgloi eu potensial ar gyfer y dyfodol

yn annibynnol: wrth iddynt ddatblygu i fod yn ddinasyddion gwybodus a hyderus

yn unigolion: wrth greu eu llwybrau gyfa a'u cyfraniadau unigryw eu hunain i'r byd

Mae'r priodoleddau hyn yn arbennig o berthnasol i'n gradddedigion sy'n mynd ymlaen i sefydlu a rhedeg busnesau a mentrau cymdeithasol newydd.

Ein Cenhadaeth, o ran entrepreneuriaeth, yw ennyn diddordeb myfyrwyr, eu grymuso a'u harfogi mewn ffordd sy'n ategu'r blaenoriaethau economaidd Rhanbarthol a welir yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi Cymru.

## Mae 'Taith y myfyriwr' yn Aberystwyth yn 2020 yn rhoi cyfle i'n myfyrwyr:

- Ddysgu rhagor am gysyniadau entrepreneuriaeth, intrapreneuriaeth a dechrau busnesau a mentrau cymdeithasol newydd, trwy ddigwyddiadau hyrwyddo menter, sgysiaau adrannol a Ffeiriau'r Glas (yn rhithwir)
- Clywed straeon ysbrydoledig modelau rôl lleol a rhai Syniadau Mawr Cymru a chyflwynwyr sy'n gyn-fyfyrwyr i ysbrydoli entrepreneuriaeth
- Mynychu cyfres o weithdai 'arfogi' sy'n sôn am Ymchwil i'r Farchnad, Marchnata, Eiddo Deallusol, Cyllid a Chadw Cyfrifon, Treth, Rhwydweithio, Marchnata Digidol, Cyllido Torfol, etc., a'r Wythnos Fenter Fyd-eang
- Cymryd rhan yn ein Cystadleuaeth Syniadau flynyddol i fyfyrwyr – gwobr CaisDdyfeisio/InvEnterPrize
- Cael mynediad at sesiynau mentora unigol gyda mentoriaid busnes Syniadau Mawr Cymru, a gynhelir ar-lein
- Cymryd rhan yn yr Wythnos Dechrau Busnes ar gyfer Cymru gyfan – cynhelir hon ym mis Mehefin ac mae'n wythnos lawn o weithdai i roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cysylltiadau y bydd eu hangen ar gyfranogwyr i ddechrau eu busnesau/mentrau cymdeithasol eu hunain, neu i ddatblygu a thyfu eu menter bresennol. Galluogodd Covid ni i wneud Wythnos Dechrau Busnes Prifysgol Aberystwyth yn ddigwyddiad cydweithredol ledled Cymru gyfan yn 2020.

## **EFFAITH meithrin eco-system Entrepreneuriaid:**

- Mae Prifysgol Aberystwyth yn rhan ganolog o eco-strwythur entrepreneuriaid y Canolbarth ac rydym wedi ymrwmo i barhau i aros felly.
- Rydym yn trefnu ac yn cynnal sesiynau chwarterol i rannu gwybodaeth, ar y cyd â Syniadau Mawr Cymru; y rhwydwaith modelau rôl, Canolfan Fenter Canolbarth Cymru, Grŵp Colegau NPTC-Powys a Choleg Ceredigion, gan rannu adnoddau pan fo hynny'n ymarferol.
- Rydym yn cynnal cysylltiad rhwng Rhwydwaith Entrepreneuriaeth y Canolbarth (rhannu gwybodaeth) a Grŵp Menter Strategol y Brifysgol, sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn.

---

## **EFFAITH cael Arweinydd Strategol i yrru'r agenda entrepreneuriaeth yn y Brifysgol yn ei blaen:**

- Sicrhau bod Uwch Dîm Rheoli'r Brifysgol yn rhoi sylw digonol i Entrepreneuriaeth.
- Cadeirio'r Grŵp Menter Strategol, gan roi adroddiadau cynnydd i Dîm Gweithredol y Brifysgol.
- Bod yn brif gynrychiolydd y Brifysgol ar Creu Sbarc; Llywodraeth Cymru a chysylltiadau strategol bwysig eraill.
- Cefnogir yr Arweinydd Strategol ar gyfer Entrepreneuriaeth, yn ei dro, gan gyfrifoldeb Cyfadrannau am Fenter, trwy'r tri Uwch Hyrwyddwr Menter Cyfadrannol. Y rhain yw tri Deon Cyswllt Dysgu ac Addysgu y Cyfadrannau. Maent yn gyfrifol am y gweithgarwch Entrepreneuriaid yn eu cyfadrannau.
- Yn eu tro, cânt hwythau eu cefnogi gan Hyrwyddwyr Menter Academiaidd, sy'n gyfrifol am y gweithgarwch Entrepreneuriaid yn eu hadrannau dysgu. Er bod yr Hyrwyddwyr yn gweithio'n unigol, mae gennym system sy'n cydlynu'r holl weithgareddau menter, ac sy'n rhoi modd i ni gofnodi ac adrodd am yr wybodaeth hon.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi atgyfnerthu brand AberPreneur drwy greu deunydd marchnata ysgogol wedi'i anelu at fyfyrwyr, sy'n gofyn y cwestiwn: "Pa fath o AberPreneur ydych chi?" Ategir hyn gan broffiliau o'r gwahanol "fathau" o fyfyrwyr sy'n dechrau busnesau a mentrau cymdeithasol, gan gynnwys Entrepreneuriaid Cymdeithasol ac Arloeswyr Lleol, yn ogystal â'r entrepreneuriaid eiddgar (*Go-Getters*) ystrydebol. Mae hyn yn ymgais i ddod ag entrepreneuriaeth yn y Brifysgol "allan o'r ysgol fusnes" a'i gwneud yn fwy hygyrch i'r farchnad ehangaf bosibl. Neges yr ymgyrch yw "Pa fath o AberPreneur ydych chi?" ... sy'n amlinellu'r ffaith y gallwn gefnogi entrepreneuriaid o bob math, mewn amrywiaeth o sectorau economaidd.

---

## **Ein "Partneriaid Creu EFFAITH" yn 2020:**

- Grŵp Gorchwyl Entrepreneuriaeth AGCAS. Mae Tony yn rhan o'r grŵp sy'n cynorthwyo Cyngorwyr Gyrfa i roi cyngor i fyfyrwyr am faterion entrepreneuriaid (DU)
- Mae Tony yn rhan o "Gymuned Ymarfer" Entrepreneuriaid ASPECT, sef grŵp sy'n hyrwyddo menter a dechrau busnes ymysg myfyrwyr y Gwyddorau Cymdeithasol (DU)
- EEUK – Rydym yn aelodau o'r sefydliad hwn i Addysgwyr Menter (DU)
- Nat West – cynhaliom raglen 'cyn-ddeori' y banc yn ddiweddar ac rydym yn cynllunio gweithgareddau eraill ar y cyd â'r sefydliad partner hwn (DU)
- Antur-Teifi – cynnal gweithdai a rhoi gwybodaeth ariannol i gleientiaid (Canolbarth)
- BANC – cynnal gweithdai a rhoi gwybodaeth ariannol i gleientiaid (Cymru)
- Busnes Cymru/Syniadau Mawr – cynnal gweithdai a darparu mentora (Cymru)
- Hwb Menter Canolbarth Cymru (Canolbarth)
- Rydym yn cydweithio'n agos â Champws Arloesi a Menter Aberystwyth sy'n rhan o'r fenter newydd hon i ddarparu adnoddau i fusnesau newydd (Canolbarth)
- Llawrydd Aberystwyth – mae gennym berthynas sy'n fuddiol i'r ddwy ochr (Canolbarth)
- Grŵp Ymchwil newydd GRRaIN yn yr Ysgol Fusnes (Canolbarth)

### Creu EFFAITH trwy ein 'Cysylltiadau â Chyn-fyfyrwyr':

- Yn 2020 gwnaethom barhau i ddatblygu perthynas fwy ffurfiol â'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, gan gwrdd â nhw'n rheolaidd i ystyried prosiectau cydweithredol.
- Rydym yn gwahodd cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Menter Strategol ac yn parhau i gynnal y gystadleuaeth syniadau myfyrwyr Gwobr CaisDdyfeisio sydd wedi'i hariannu a'i beirniadu gan gyn-fyfyrwyr.

---

### Creu EFFAITH trwy gefnogi Clybiau a Chymdeithasau Menter i sbarduno entrepreneuriaeth:

- Trwy gefnogi'r clybiau a'r cymdeithasau ein nod yw harneisio'r meddylfryd entrepreneuraidd yn y gwahanol gymdeithasau a grwpiau a'u gwneud yn ymwybodol o'r cymorth a gynigir drwy'r Cyllid Grant Entrepreneuriaeth Ieuencid, i'w galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y gwasanaethau a gynigir.
- Yn 2020, sefydlom Gymdeithas ENACTUS, a redodd drwy gydol y flwyddyn, wedi'i chefnogi gan y Tîm Menter. Aeth un o'u prosiectau 2020 i ddigwyddiad pencampwriaeth y DU ym mis Mawrth.
- Yn 2020 fe wnaethom barhau i ddatblygu perthynas waith agos ag ysgrifenyddiaeth Clybiau a Chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr gan edrych ar y clybiau a'r cymdeithasau cyfredol i weld pa rai sydd â chysylltiadau entrepreneuraidd cryf.
- Edrychom ar fylchau hyfforddiant wrth weithio gyda swyddogion clybiau a chymdeithasau gan edrych ar eu hanghenion hyfforddiant yn seiliedig ar gymhwysedd entrepreneuraidd.
- Yn 2020 gwnaethom barhau i weithio â Llawrydd Aberystwyth a'i aelodau.

---


### Creu EFFAITH drwy hyrwyddo busnesau newydd a thwf busnesu:

- Yn 2020 defnyddiom natur ar-lein sefyllfa COVID i weithio'n agosach fyth â cholegau a phrifysgolion eraill yng Nghymru i gynllunio, datblygu a chynnal cyfres o ddigwyddiadau menter yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr a graddedigion.
- Aethom i fersiwn ar-lein cynhadledd IEEC ym Mhrifysgol Aston ym mis Medi 2020 i ddysgu arferion gorau o ran rhaglenni eraill tebyg a allai fod ar gael i ni.

---

### EFFAITH Cyflawniadau 2020: Llwyddom i:

- YMGYSYLLTU Â **912** o fyfyrwyr  
(wedi codi o 713 yn 2019)
- ARFOGI **284** o fyfyrwyr a graddedigion i ddilysu eu syniadau am fusnesau a mentrau  
(wedi codi o 202 yn 2019)
- CYNORTHWYO **9** o'r myfyrwyr/graddedigion hyn i ddechrau masnachu fel busnes/menter gymdeithasol (wedi codi o 7 yn 2019)
- SICRHAU YMRWYMIAD **13** aelod o staff yn Hyrwyddwyr y gwaith hwn  
(gan gynnwys 9 Hyrwyddwr Menter Academaidd)
- SICRHAU **£13,000** mewn arian parod a **£2,295** "mewn nwyddau" gan fuddsoddiadau preifat i gefnogi'r gwaith hwn



<https://www.aber.ac.uk/en/careers/enterprise/>